**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Hydref 2011**

## YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2012-13

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Penderfynu ar y ffordd o gael £1 miliwn o arbedion yn ystod 2012/13 a 2013/14, yn dilyn gwerthuso'r opsiynau o ran y gyllideb gan y Gweithgor Lleihau Risg a chyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 19eg Medi 2011.

## Cefndir

2 Yn Rhagfyr 2010, penderfynodd yr aelodau rewi cyllideb refeniw flynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am dair blynedd, hyd ddiwedd 2013-14. Mewn termau real, mae hyn yn golygu bod angen 7.5% o arbedion i gwrdd â chostau cynyddol ac anochel. Mae'r gyfradd chwyddiant gyffredinol, yn enwedig cost tanwydd a chost benthyca darbodus i gwrdd â rhwymedigaethau penderfyniadau gwariant cyfalaf blaenorol, yn parhau i godi. O ganlyniad i hyn, mae gofyn i'r Awdurdod wneud arbediad o £2.4 miliwn dros gyfnod o dair blynedd.

**3** Yn y cyfarfod arbennig o'r Awdurdod a gynhaliwyd ar 10fed o Ragfyr 2010, cyfarwyddodd yr Aelodau gymryd yr arbedion hyn ar ffurf pecynnau gwahanol o newidiadau trwy'r Gwasanaeth ar ei hyd. Wedi ystyried yn ofalus, penderfynodd yr Awdurdod gymryd yr arbedion hyn o'r gyllideb ar gyfradd gyfartal o £800,000 y flwyddyn.

4 Felly, cymerwyd £800,000 allan o'r gyllideb sylfaen eleni, £800,000 pellach yn 2012-13 a £800,000 arall yn 2013-14, gyda chyfanswm y gostyngiad yn £2.4 miliwn.

5 Eleni, sef 2011-12, (Blwyddyn 1), mae'r Awdurdod o fewn y nod i gyrraedd yr £800,000 cyntaf trwy ostyngiad cymesur mewn gwariant dewisol, gweithgarwch diogelwch cymunedol, costau staff cefnogol, ac ailstrwythuro gofal swyddogion, a arweiniodd at ostyngiad o wyth swydd.

**Gwybodaeth**

6 Ym Mlynyddoedd 2 a 3, disgwylir y bydd hyd at £300,000 yn cael ei dynnu o'r gyllideb bob blwyddyn trwy leihau gweithgarwch diogelwch cymunedol, dyletswyddau anstatudol a swyddi staff cefnogol, ynghyd ag ymddeoliadau a ragwelir. Fodd bynnag, bydd raid i'r mwyafrif llethol, sef dros £1miliwn, gael ei ganfod dros y ddwy flynedd nesaf trwy newidiadau i'r gofal tân. Mae dros 75% o'r gyllideb refeniw yn cael ei wario ar gostau staff, ac o'r ffigwr hwnnw, mae staff yr ochr weithredol yn 79% o'r holl gostau gweithwyr. Bydd unrhyw ostyngiad yn y gofal tân hefyd yn golygu gostyngiad yn lefel y gefnogaeth sydd ei hangen.

7 Cyfarfu aelodau Gweithgor y Cynllun Risg deirgwaith, sef ar 7fed o Fehefin, 11eg o Orffennaf a 1af o Awst 2011. Fe wnaethant ddewis pum opsiwn o blith ystod eang o opsiynau a gyflwynwyd iddynt ar ffurf y llyfr "Opsiynau ar gyfer Gostyngiadau yn y Gyllideb" (a roddwyd i bob aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn 2010). Fe wnaethant edrych yn fanwl ar bob un o'r pum opsiwn gwahanol ar gyfer newid, ac roedd nifer o heriau a risgiau gwahanol yn gysylltiedig â hwy. Un o'r prif bryderon oedd y risg weithredol i ddiffoddwyr tân, a'r angen i rwystro rhag y rhain.

8 Yr opsiynau oedd:

(i) Defnyddio un o'r systemau cylchrestru criwiau, sy'n sicrhau bod nifer gywir y diffoddwyr tân ar beiriannau ar orsafoedd shifftiau, gyda'r angen am lai o swyddi diffoddwyr tân.

**Sail**

- Bydd hyn yn sicrhau bod nifer gywir o ddiffoddwyr tân ar beiriant tân bob amser.
- Ni fydd y cyhoedd yn gweld gostyngiad yn lefel y gwasanaeth yn eu hardal.

- Gan ddibynnu ar y fersiwn a ddewisir, mae'r system hon yn gofyn am rhwng 22 a 36 yn llai o swyddi. Arbediad sydd rhwng £850K a £1.05 miliwn.
- Gan ddibynnu ar y fersiwn a weithredir, gellir rhoi hyn ar waith fesul cam dros y ddwy flynedd nesaf.
- Mae'r opsiwn hwn yn osgoi cau gorsafoedd, ac nid oes gostyngiad yn nifer gyfredol y peiriannau tân.

**Risgiau a Heriau**

- Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at ostyngiad o hyd at 36 o swyddi amser cyflawn ar yr ochr weithredol. Mae'n annhebygol y gellid cael hyn trwy draul naturiol o fewn yr amserlen, a gallai olygu golli swyddi.
- Bydd hyn yn newid diwylliannol i'r ffordd y mae diffoddwyr tân ar orsafoedd shifftiau yn draddodiadol wedi cael eu patrymau gweithio.
- Gyda llai o weithlu, mae llai o allu i ymdrin ag absenoldebau tymor hir, a digwyddiadau hirfaith.
- Mae hyn yn debygol o ddenu gwrthwynebiad gan y cyrff cynrychioliadol, a gallai arwain at weithredu diwydiannol.
- Gan ddibynnu ar y fersiwn a weithredir, efallai y byddai angen gwariant cyfalaf sylweddol.

(ii) Cael gwared ar yr ail beiriant (dyletswydd amser cyflawn) a'r swyddi cysylltiedig yn Wrecsam.

**Sail**

- Gallai hyn arwain at arbediad o ran costau gweithwyr, sy'n £874K.
- O'i gymharu ag ardaloedd eraill o lefelau risg tebyg yn y Deyrnas Unedig, mae'n bosib fod gorddarpariaeth yn Wrecsam.
- Mae lefel y gweithgarwch yn Wrecsam wedi gostwng dros y blynyddoedd.
- Byddai unrhyw ostyngiad mewn peiriannau tân yn effeithio ar ddyluniad yr orsaf newydd.

**Risgiau a Heriau**

- Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at ostyngiad o 24 o swyddi amser cyflawn ar yr ochr weithredol. Mae'n annhebygol y gellir cael hyn trwy draul naturiol o fewn yr amserlen, a gallai olygu colli swyddi.

- Mae hyn yn debygol o ddenu gwrthwynebiad gan y cyrff cynrychioliadol, a gallai arwain at weithredu diwydiannol.
- Anhawster ac oedi wrth anfon allan y peiriannau arbennig sydd yn y gorsafoedd yma ar hyn o bryd, gyda chriw cymwys.

(iii) Cael gwared ar yr ail beiriant o: Lannau Dyfrdwy, y Rhyl, Bae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi, a thrydydd peiriant o Wrecsam.

**Sail**
- Byddai'r gostyngiad yng nghostau gweithwyr yn £664,000.
- Byddai cael gwared ar yr 8 peiriant yn arwain at arbedion ychwanegol o £177,000.

**Risgiau a Heriau**
- Byddai hyn yn creu oedi mewn amseroedd ymateb ar gyfer peiriannau ategol i ddigwyddiadau oherwydd y byddai'n rhaid i'r ail beiriant ddod o orsaf gyfagos.
- Gallai hyn arwain at golli hyd at 111 swyddi.
- Gallai'r costau dileu swyddi yn y flwyddyn gyntaf fod yn £388,000.
- Byddai'r gostyngiad hwn yn nifer y swyddi a'r peiriannau yn lleihau gallu'r gwasanaeth i ymdrin â nifer uchel o ddigwyddiadau ar yr un pryd.
- Byddai galw ychwanegol yn cael ei drosglwyddo i orsafoedd cyfagos, ac fe allai hynny greu problemau gyda phrif gyflogwyr y diffoddwyr tân yn ôl y galw sydd yn y gorsafoedd hynny.
- Mae hyn yn debygol o ddenu gwrthwynebiad gan y cyrff cynrychioliadol, a gallai arwain at weithredu diwydiannol.

(iv) Newid gorsafoedd y Rhyl a Glannau Dyfrdwy o orsafoedd shifftiau i'r model criw dydd presennol sydd ar waith yng Nghaergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno a Bae Colwyn.

**Rheswm**
- Byddai'r opsiwn hwn yn osgoi cau gorsafoedd, ac nid oes gostyngiad yn nifer gyfredol y peiriannau tân.
- Mae'n creu arbediad blynyddol o £1.03 miliwn.
- Mae'r system hon ar waith mewn 5 gorsaf arall yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd.

**Risgiau a Heriau**

- Bydd yr opsiwn yn arwain at golli 32 o swyddi amser cyflawn ar yr ochr weithredol. Mae'n annhebygol y gellir cael hyn trwy draul naturiol o fewn yr amserlen, a gallai arwain at golli swyddi.
- Gallai fod angen £384,000 o gostau dileu swyddi statudol yn y flwyddyn gyntaf.
- Cyfyngedig yw nifer y staff sy'n gweithio yn yr orsaf ar hyn o bryd ac yn byw o fewn ardal yr orsaf. Mae'n un o ofynion y system ddyletswydd hon, ond byddai'n anodd ei orfodi am yn ôl.
- Bydd oedi mewn amseroedd ymateb ar gyfer galwadau cyntaf at ddigwyddiadau o'i gymharu â'r system shifft presennol yn ystod oriau'r System Dyletswydd yn ôl y Galw.

(v) Cau wyth o orsafoedd y system dyletswydd yn ôl y galw.

**Rheswm**

- Gellir targedu hyn mewn ardaloedd risg isel.
- Yn ogystal â chostau gweithwyr, mae'n cael gwared ar gostau cynnal a chadw'r safleoedd, ac 8 peiriant tân.
- Gellid cael rhywfaint o dderbyniadau cyfalaf o werthu'r safleoedd.

**Risgiau a Heriau**

- Bydd pryder y cyhoedd ynglŷn â risg yn creu gwrthwynebiad lleol amlwg i gael gwared ar orsafoedd tân lleol.
- Byddai hyn yn effeithio ar bob ardal awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.
- Byddai galw cynyddol yn cael ei drosglwyddo i orsafoedd cyfagos, ac fe allai greu problemau gyda phrif gyflogwyr diffoddwyr tân y system dyletswydd yn ôl y galw sydd yn y gorsafoedd hynny.
- Gallai hyn arwain at golli hyd at 96 o swyddi, gyda'r costau dileu swyddi yn y flwyddyn gyntaf yn £300,000.
- Byddai'r gostyngiad hwn yn nifer y swyddi a'r peiriannau yn lleihau gallu'r gwasanaeth i ymdrin â nifer sylweddol o ddigwyddiadau ar yr un pryd.
- Fe allai gael effaith anghymesur ar ardaloedd gwledig a'r economi wledig.

9 Yn ei gyfarfod ar 1af o Awst, dangosodd aelodau Gweithgor y Cynllun Risg y byddai'n well ganddynt weld yr arbedion yn cael eu cyflawni trwy gytundeb wedi cyd-drafod y newidiadau i'r system gylchrestr criwiau. Roedd hyn ar y sail mai dyma'r opsiwn a fyddai'n cael y lleiaf o effaith ar y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn Ngogledd Cymru. Aeth y Prif Swyddog Tân yn ei flaen i hysbysu Gweithgor y Cynllun Risg fod Undeb yr FBU, yn ei gynhadledd ar 18fed – 20fed o Fai 2011, wedi cofnodi ei wrthwynebiad i systemau o'r math hwn, ac wedi penderfynu y byddai'n "ystyried strategaeth o gamau cydlynedig o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub sy'n ystyried gweithredu Systemau Dyletswydd o'r fath".

10 Cyflwynwyd yr holl wybodaeth uchod i'r Panel Gweithredol ar 19eg Medi, a buont yn ei thrafod. Cytunodd Aelodau'r Panel yn unfrydol i argymell i'r Awdurdod y dylid cael yr arbedion trwy gytundeb wedi ei drafod ynglŷn â newidiadau i'r system gylchrestr criwiau.

## Argymhellion

11 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r gwaith manwl a wnaed gan Weithgor y Cynllun Risg;
(ii) nodi'r opsiwn y mae'r Gweithgor hwnnw'n ei ffafrio, y cyfeirir ati ym mharagraff 9 ac argymhellion y Panel Gweithredol (paragraff 10);
(iii) nodi ymhellach bod risgiau'n gysylltiedig â'r opsiwn hwnnw;
(iv) cydnabod bod angen gwneud penderfyniadau yn y cyfarfod hwn er mwyn rhoi digon o amser i weithredu'r newidiadau hynny;
(v) cefnogi'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio'n unfrydol gan y Panel Gweithredol;
(vi) nodi y gallai'r gofyniad i wneud yr arbedion angenrheidiol yn y flwyddyn ariannol 2012-13 arwain at yr angen i weithredu rhai neu bob un o'r opsiynau eraill o ran y gyllideb a ystyriwyd gan Weithgor y Cynllun Risg petai'n amhosibl cael cytundeb ynglŷn â'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.